

CFfG/ 2021/ Cyfarfod gydag ASau

Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd trwy MS Teams am 09:30pm ddydd Llun 8 Mawrth 2021.

Yn bresennol:

Mrs Ustus Jefford DBE	Dirprwy Gadeirydd
Mr Huw Thomas CBE	Comisiynydd
Mr Sam Hartley	Comisiynydd
Mrs Shereen Williams MBE OStJ	Ysgrifennydd y Comisiwn
Mr Tom Jenkins	Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn
Mr Rhydian Fitter	Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn
Tonia Antoniazzi	AS
Huw Griffith (Simon Baynes)	AS
Wayne David	AS
James Davies	AS
Alex Davies-Jones	AS
Stephen Doughty	AS
Nia Griffith	AS
Gerald Jones	AS
David Jones	AS
Fay Jones	AS
Stephen Kinnock	AS
Ben Lake	AS
Christina Rees	AS
Rob Roberts	AS
Liz Saville-Roberts	AS
Jo Stevens	AS
Mark Tami	AS
Jamie Wallis	AS
Hywel Williams	AS
Craig Williams	AS
Kevin Brennan	AS

Stephen Crabb	AS
Geraint Davies	AS
David Davies	AS
Jessica Morden	AS
Beth Winter	AS
Ruth Jones	AS
Robert James	
Ian Bounds	
Cari Morgans	
Khadja Uddin	

1. Croeso a Chyflwyniadau

1.1. Agorodd y Dirprwy Gadeirydd y cyfarfod.

1.2. Cyflwynodd y Dirprwy Gadeirydd ei hun ac esboniodd fod dau Gomisiynydd, sef Huw Thomas a Sam Hartley, yn bresennol, ynghyd ag aelodau o Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn a chynrychiolwyr Partïon â Buddiant.

2. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

2.1. Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

3. Cefndir a Diben

3.1. Rhoddodd y Dirprwy Gadeirydd gefndir i'r arolwg a beth fyddai'n cael ei drafod yn y cyfarfod.

4. Nifer yr Etholaethau a'r Cwota Etholiadol

4.1. Dywedodd y Dirprwy Gadeirydd beth oedd nifer yr etholaethau a'r cwota etholiadol ar gyfer pob etholaeth, fel yr amlinellir gan y Ddeddf.

4.2. Mae 32 etholaeth yng Nghymru, a chwota etholiadol y Deyrnas Unedig yw 73, 393. Bydd rhaid i'r Comisiwn, yn ôl y gyfraith, aros o fewn 5% uwchlaw neu islaw'r ffigur hwn. Heblaw am Ynys Môn, mae'n rhaid i bob etholaeth a gynigir gan y Comisiwn yn rhan o Arolwg 2023 gynnwys rhwng 69, 724 a 77, 062 o etholwyr.

5. Amserlen

5.1. Amlinellodd y Dirprwy Gadeirydd yr amserlen a ragwelir ar gyfer yr arolwg a phryd mae'r Comisiwn yn disgwyl cyrraedd gwahanol gerrig filltir yr arolwg.

- Lansio'r Arolwg – mis Ionawr 2021.
- Cyhoeddi'r Canllaw i'r Arolwg – mis Mawrth 2021.

- Cyhoeddi Cynigion Cychwynnol – mis Medi 2021.
 - Cyfnod Ymgynghori ar y Cynigion Cychwynnol – mis Medi 2021 tan is Tachwedd 2021.
 - Cyfnod Ymgynghori Eilaidd gan gynnwys gwrandawiadau cyhoeddus – mis Ionawr 2022 tan fis Chwefror 2022.
 - Cyhoeddi Cynigion Diwygiedig – mis Medi 2022.
 - Cyfnod Ymgynghori ar y Cynigion Diwygiedig – mis Medi 2022 tan fis Hydref 2022.
 - Argymhellion Terfynol – mis Mehefin 2023.
- 5.2. Bydd y Comisiwn yn cyflwyno ei Argymhellion Terfynol ym mis Mehefin 2023.

6. Datblygu Cynigion

- 6.1. Bydd y Comisiwn yn ystyried sawl ffactor o Reol 5 yn Atodlen 2, wrth sefydlu map newydd o etholaethau ar gyfer Arolwg 2023.
- 6.2. Bydd y Comisiwn yn ceisio osgoi rhannu wardiau etholiadol rhwng etholaethau ac yn ceisio creu etholaethau o wardiau etholiadol cyfan pan fydd hynny'n bosibl.

7. Enwau a Dynodiadau Etholaethau

- 7.1. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn nodi enw a dynodiad ar gyfer pob etholaeth arfaethedig.
- 7.2. Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol i bob etholaeth yng Nghymru gael enwau amgen yn Gymraeg ac yn Saesneg i sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gydradd. Bydd eithriadau ar gyfer etholaethau lle mae'r enw yr un fath yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 7.3. Bydd y Comisiwn yn defnyddio enwau pwynt cwmpawd pan nad oes enw mwy addas ar gael.

8. Ymgynghoriadau

- 8.1. Mae'r Ddeddf yn amlinellu tri chyfnod ymgynghori ar gyfer yr Arolwg.
- 8.2. Mae'r porth ymgynghori ar-lein ar gyfer Arolwg 2023 wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd yn barod mewn pryd ar gyfer cyhoeddi'r Cynigion Cychwynnol a'r cyfnod ymgynghori dilynol.
- 8.3. Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi'r holl gynrychiolaethau a dderbynnir yn ystod y cyfnodau ymgynghori ar y wefan a'r porth ymgynghori ar-lein.
- 8.4. Mae'r Comisiwn yn bwriadu cynhyrchu nifer fach o gopiâu caled o'r adroddiad yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer yr holl rai hynny ar y rhestrau dosbarthu yr ystyrir bod angen iddynt gael copi caled. Bydd partïon eraill â buddiant yn cael llythyrau sy'n eu cyfeirio at wefan y Comisiwn, y porth ymgynghori ar-lein a'r lleoliadau adneuo. Dywedwyd wrth yr holl ASau y byddant yn cael copi 24 awr cyn iddo gael ei gyhoeddi. Dywedwyd wrthynt y byddant yn cael copi dwyieithog yn unol â rheoliadau'r Gymraeg.

9. Gwrandawiadau Cyhoeddus

9.1. Esboniodd y Dirprwy Gadeirydd y bydd ymarfer recriwtio'n cael ei gynnal i benodi Comisiynwyr Cynorthwyol i gynnal y gwrandawiadau cyhoeddus.

9.2. Mae'r Comisiwn yn ymwybodol o'r cyfyngiadau presennol ar deithio a chynulladau mawr, ac mae'r pedwar Comisiwn Ffiniau wrthi ar hyn o bryd yn archwilio opsiynau ar gyfer cynnwys elfennau rhithwir yn y gwrandawiadau cyhoeddus. Cyhoeddir canllaw ar wrandawiadau cyhoeddus maes o law.

9.3. Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, bydd y Comisiwn yn cynnal yr uchafswm nifer o wrandawiadau cyhoeddus yng Nghymru, sef pump. Mae diwygiad i'r Ddeddf yn golygu y bydd y gwrandawiadau cyhoeddus yn cael eu cynnal yn ystod yr Ail Gyfnod Ymgynghori. Penderfynir ar leoliad y gwrandawiadau cyhoeddus gan ystyried y cynrychiolaethau a dderbynnir yn ystod y Cyfnod Ymgynghori Cychwynnol.

9.4. Bydd y gwrandawiadau cyhoeddus ar agor i'r cyhoedd a'r holl randdeiliaid.

10. Unrhyw Gwestiynau Eraill

10.1. Cwestiwn gan Kevin Brennan AS – *Sut bydd gwaith blaenorol y Comisiwn yn dylanwadu ar y canlyniad?* Dywedodd y Dirprwy Gadeirydd mai arolwg newydd yw'r broses hon ac y bydd yn defnyddio rhifau newydd a gwahanol/wedi'u diweddarau. Felly, bydd y broses yn gwbl newydd ac yn annibynnol ar waith blaenorol.

10.2. Cwestiynau gan LSR AS 1. *Materion yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg 2. Yn ogystal â materion awdurdodau lleol, beth fydd yr effaith ar ffiniau byrddau iechyd a'r heddlu, gan nad yw plismona wedi'i ddatganoli?* Esboniodd y Dirprwy Gadeirydd y gall ffactorau o'r fath, yn enwedig o ran anghyfleustra lleol mewn perthynas â byrddau iechyd/heddluoedd, gael eu codi yng nghyd-destun cysylltiadau lleol a chynrychiolaethau. Os yw'r materion hynny'n dod o fewn ystyriaethau statudol.

10.3 Cwestiwn gan Hywel Williams AS – *Cwestiynau Penodol am Reol 5 – Ystyriaethau diwylliannol – 1. Pa bwys a roddwyd i'r ystyriaethau hyn o gymharu â rhai eraill? 2. Pa ystyriaeth a roddwyd i ffiniau newydd sy'n cydffinio ag awdurdodau lleol a newidiadau i ffiniau'r Senedd yn y dyfodol/ar hyn o bryd?* Esboniodd y Dirprwy Gadeirydd nad yw newidiadau i ffiniau'r Senedd yn rhan o'r cylch gorchwyl ac felly nid yw hyn yn ffactor i'w ystyried yn yr arolwg hwn. Ychwanegodd hefyd nad yw'r egwyddor gydffiniol yn berthnasol i ffiniau awdurdod lleol. Yn olaf, atebodd y Dirprwy Gadeirydd Gwestiwn 2, gan gadarnhau unwaith eto nad oes pwysoliad o fewn yr ystyriaethau statudol. Felly, ni fydd materion yn ymwneud â diwylliant ac iaith yn cael eu hystyried ar ôl neu'n israddol i unrhyw rai eraill.

10.4 Cwestiwn gan Rob Roberts AS – *ffactorau awdurdod lleol, daearyddol – a roddir mwy o bwysoliad i unrhyw ffactorau? Ac a roddir ystyriaeth i ddalgylchoedd ysgolion?* Dywedodd y Dirprwy Gadeirydd wrth yr Aelod na roddir mwy o flaenoriaeth i unrhyw ffactor penodol. Yn ail, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Comisiwn hefyd na roddwyd gwybod i'r Comisiwn ar unrhyw adeg yn ystod y 3 blynedd diwethaf o arolygon fod dalgylchoedd ysgolion yn gysylltiedig â ffiniau. Felly, ni fydd y rhain yn cael eu hystyried.

10.5 Cwestiwn gan Geraint Davies AS – *gofynnodd, os cynhelir ymgynghoriadau'n rhithwir, a ellir cynnal mwy na'r terfyn o 5 o dan y rheoliad, a phetaent yn cael eu cynnal yn rhithwir, a allem ddefnyddio fformat hybrid lle y gellir ateb cwestiynau ar-lein ar gyfer rhannau eraill o Gymru?* Esboniodd y Dirprwy Gadeirydd na allwn gynnal mwy na'r 5 gwrandawiad a reoleiddir yn statudol. Yn ail, o ystyried natur y cyfrwng ar-lein, os cynhelir cyfarfod yn rhithwir yng Nghaerdydd, mae'r Comisiwn yn gobeithio y gallai rhannau eraill o'r wlad holi ar-lein. Mae hyn wrthi'n cael ei ystyried ar hyn o bryd. Os gellir gweithio o fewn y fframwaith statudol a chyfreithiol, gobeithir y gellir datrys hyn cyn gynted â phosibl. Mae cyfarfodydd hybrid yn cael eu hystyried. Diolchodd y Dirprwy Gadeirydd i'r Aelod am ei awgrym.

10.6. Stephen Doughty AS – *ffiniau awdurdodau lleol – gofynnodd yr Aelod a fydd ymdrech ar y cyd i gadw newidiadau a chyfuno wardiau/cymunedau o fewn 1 neu 2 ar y mwyaf? Gofynnodd hefyd a fwriedir aros o fewn ffiniau hanesyddol presennol?* Dywedodd y Dirprwy Gadeirydd wrth yr Aelod y bydd yr arolwg yn ceisio tarfu cyn lleied â phosibl. Ailadroddodd Ysgrifennydd y Comisiwn, oherwydd bod natur yr arolwg yn newid y rhif o 40 i 32, ni all y Comisiwn ymrwmo i beidio â chroesi mwy na 2 ffin. Fodd bynnag, ceisir cyfyngu ar yr effaith hon. Yn olaf, esboniodd Ysgrifennydd y Comisiwn hefyd na roddir ystyriaeth i ffiniau hanesyddol. Fodd bynnag, gwneir ymdrech o hyd i gydymffurfio â'r rheoliad ynglŷn â chadw cymunedau presennol yn gyfan, lle y bo'n bosibl.

10.7 Cwestiwn gan Jo Stevens AS ynglŷn â chynnal yr arolwg o ffiniau llywodraeth leol ar yr un pryd â'r arolwg hwn. *Sut bydd y Comisiwn yn rheoli'r broses o gydlynu ac ystyried newidiadau i ffiniau lleol yn ystod yr arolwg?* Cadarnhaodd y Dirprwy Gadeirydd ac Ysgrifennydd y Comisiwn y bydd yr arolwg yn defnyddio ac yn ystyried gwybodaeth a ffiniau presennol fel yr oeddent ym mis Rhagfyr 2020, fel yr amlinellwyd yn y cyflwyniad. Mae hyn yn anodd ei ystyried, gan nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniad ar y cynigion a anfonwyd at y Gweinidog Tai.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:15 am.